CPS

Troseddau yn erbyn pobl hŷn– polisi erlyn y CPS

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2008
Argraffwyd Gorffennaf 2008

Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Rôl Gwasanaeth Erlyn y Goron	7
3	Troseddau yn erbyn pobl hŷn	10
4	Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron	13
5	Rôl yr heddlu	17
6	Erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn	21
7	Cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion hŷn	25
8	Helpu pobl hŷn i roi eu tystiolaeth orau yn y llys	29
9	Beth sy'n digwydd os bydd y dioddefwr yn tynnu ei gefnogaeth yn ôl neu os nad yw bellach yn dymuno rhoi tystiolaeth?	33
10	Parhau ag achos ble mae'r dioddefwr wedi tynnu'n ôl ei gefnogaeth dros erlyn	35
11	Dedfrydu	39

12 Cofnodi troseddau yn erbyn pobl hŷn 42

13 Casgliad 43

Atodiad A

Tabl o ymddygiadau a wynebir gan bobl hŷn a'r troseddau y gallai'r rhain eu cynrychioli 44

Atodiad B

Sefydliadau cefnogi 48

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn egluro'r ffordd y byddwn ni, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), yn delio â throseddau yn erbyn pobl hŷn a sut byddwn yn cefnogi pobl hŷn sy'n ddioddefwyr a thystion i droseddau.

1.2 Rydym yn cyhoeddi'r datganiad hwn oherwydd ein bod eisiau i bobl hŷn, eu teuluoedd, cymunedau a'r cyhoedd fod yn hyderus bod y CPS yn deall natur ddifrifol troseddau yn erbyn pobl hŷn. Mae diogelwch eiddo a diogelwch personol, a'r hawl i fyw yn rhydd rhag ofn troseddau, yn hawliau dynol sylfaenol ac maent yn ganolog i flaenoriaethau pobl hŷn. Mae teimlo'n anniogel a bod yn anniogel, neu 'mewn perygl', yn cael effeithiau negyddol dros ben ar iechyd a lles pobl hŷn a gall wneud iddynt deimlo ar eu pen eu hunain ac yn methu cymryd rhan yn eu cymunedau yn gymdeithasol ac economaidd.

1.3 Yn y CPS, rydym yn ymroi i roi ystyriaeth i faterion cydraddoldeb o ran oedran yn ein holl bolisïau erlyn. Ysgogiad arall i fynd i'r afael â throseddau yn erbyn pobl hŷn yw'r twf ym mhoblogaeth hŷn y Deyrnas Unedig a'r ffaith fod pobl yn byw'n hŷn. Gall agweddau negyddol tuag at bobl hŷn fod yn gyffredin yn ein cymdeithas a gallai'r rhain gael eu hadlewyrchu mewn cyrff sy'n gofalu am bobl hŷn, boed hynny mewn cefndir domestig neu mewn sefydliadau. Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan a herio hyn: mae datblygu polisi ar gyfer erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn yn ymrwymiad allweddol yng Nghynllun Gweithredu Cydraddoldeb o ran Oedran, sy'n rhan o Gynllun Cydraddoldeb Sengl, 2006-2010 y CPS. Er mwyn bodloni ein hymrwymiadau

polisi, byddwn yn gweithio gyda nifer o asiantaethau a bydd sylwadau gan ymarferwyr yn cyfrannu at ddatblygu ymatebion ar ffurf polisïau a gwasanaethau, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

1.4 Rydym yn cydnabod yr amrywiaeth yn amgylchiadau pobl hŷn ac er bod yn rhaid i rai pobl ddibynnu ar gymorth i reoli eu pethau, bydd maint y cymorth yn amrywio yn ôl amgylchiadau unigol. Rydym hefyd yn cydnabod nad yw llawer o bobl hŷn yn eu hystyried eu hunain yn fregus, yn agored i niwed nac angen cefnogaeth mewn unrhyw ffordd.

1.5 Mae'r CPS yn cydnabod amrywiaeth pobl hŷn boed hynny yn ôl rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, ethnigrwydd, crefydd neu gred, anabledd neu rywioldeb a bod pobl hŷn yn wynebu gwahaniaethu, nid yn unig oherwydd eu hoedran ond hefyd oherwydd eu hethnigrwydd, crefydd neu gred, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, rhywioldeb neu anabledd. Rydym hefyd yn cydnabod y gall llawer o bobl wynebu gwahaniaethu lluosog ar unrhyw rai o'r seiliau hyn.[1]

1.6 Cafodd y datganiad polisi hwn ei ddatblygu a'i ddwyn ymlaen mewn ymgynghoriad â phobl hŷn eu hunain, gyda chynrychiolwyr o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl hŷn, a chydag academyddion sy'n gweithio ym maes gerontoleg. Rydym yn gwerthfawrogi pob cyfraniad; fodd bynnag, cyfrifoldeb y CPS yn llwyr yw cynnwys y ddogfen hon. Bydd y datganiad polisi hwn yn cael ei gefnogi gan ganllawiau manylach ar gyfer holl erlynwyr a gweithwyr achosion penodol y CPS fel eu bod yn deall y polisi yn glir a sut byddwn yn delio â'r math hwn o drosedd.

[1] Rydym yn cydnabod y gall pobl hŷn ddioddef yn sgil trais yn y cartref a throseddau casineb hefyd. Yn yr achosion hyn, byddwn yn dilyn ein polisïau ar droseddau casineb a thrais yn y cartref.

1.7 Mae'r CPS yn cydnabod bod troseddau yn erbyn pobl hŷn yn aml yn digwydd yng nghyd-destun cam-drin.[2,3] Yn yr *UK Study of Abuse and Neglect of Older People Prevalence Survey Report*[4] gwelwyd bod 2.6% o bobl, (tua 227,000) 66 oed a throsodd oedd yn byw ar aelwydydd preifat yn dweud iddynt gael profiad o gamdriniaeth oedd yn cynnwys aelod o'r teulu, ffrind agos neu weithiwr gofal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.[5] Hefyd, mewn astudiaeth yn y Deyrnas Unedig (O'Keeffe et al, 2007) awgrymwyd bod dros hanner y sefyllfaoedd o gamdriniaeth yn cynnwys partneriaid, yn aml yng nghyd-destun pobl yn brwydro i ddarparu gofal, ac yn enwedig os oeddynt hwy eu hunain yn fregus a/neu wael.

1.8 Pan fydd casgliadau'r arolwg o nifer achosion yn cael eu hehangu i gynnwys digwyddiadau sy'n ymwneud â chymdogion a chydnabod, mae'r ffigur cyffredinol yn codi i 4.0% o bobl 66 oed a throsodd. Mae hyn yn cyfateb i 342,400 o bobl hŷn yn y Deyrnas Unedig sy'n wynebu rhyw fath o gamdriniaeth bob blwyddyn.

1.9 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad oes yr un o'r ffigurau hyn yn adlewyrchu cyd-destun llawn a gwirioneddol y troseddau y bydd pobl hŷn yn eu hwynebu. Gall pobl hŷn wynebu trosedd yn eu cartrefi eu hunain a hefyd mewn mannau eraill, er enghraifft, mewn cartrefi nyrsio, cartrefi gofal preswyl, ysbytai, carcharau, ac mewn mannau cyhoeddus.

---

[2] Gan gynnwys esgeulustod, camdriniaeth ariannol; cam-drin corfforol; a cham-drin rhywiol.

[3] Mae *No Secrets* yn diffinio camdriniaeth fel person arall neu bersonau eraill 'yn ymyrryd â hawliau dynol a hawliau sifil unigolyn …gall gynnwys un weithred neu weithredoedd dro ar ôl tro. Gall fod yn gorfforol, yn llafar neu'n seicolegol, gall fod yn weithred o esgeulustod neu'n esgeulustod i weithredu neu gall ddigwydd pan fydd person agored i niwed yn cael ei berswadio i gychwyn trafodion ariannol neu rywiol nad yw ef neu hi wedi cydsynio iddynt neu nad yw'n gallu cydsynio iddynt. Gall camdriniaeth ddigwydd mewn unrhyw berthynas a gall arwain at niwed sylweddol i'r person sy'n ei hwynebu, neu at ecsbloetio'r person hwnnw.' (DH t. 9).

[4] Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol a King's College Llundain 2007.

[5] Mae ffigur 66 yn ymwneud â dull yr ymchwilwyr o sicrhau bod pobl 66 oed yn cael eu holi am eu profiad yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl bobl hŷn ac mae'n monitro digwyddiadau yn erbyn pobl 60 oed a throsodd.

1.10 Felly, rhaid i'r dasg o atal troseddau yn erbyn pobl hŷn a dod â throseddwyr gerbron llys fod yn flaenoriaeth i'n cymdeithas a hefyd i'r CPS. Mae'r CPS yn cydnabod ei rôl yn amddiffyn hawliau dynol pobl hŷn trwy erlyn troseddwyr yn effeithiol. Wrth wneud hynny, rydym eisiau hybu mwy o hyder ymysg y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol – sef nod allweddol i'w holl asiantaethau.

1.11 Rydym yn cydnabod y gall fod ar bobl hŷn angen cefnogaeth i'w galluogi i roi tystiolaeth a sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal at gyfiawnder. Rydym hefyd yn cydnabod bod mynediad at gyfiawnder yn gysylltiedig â statws pobl hŷn a'r parch sydd gan gymdeithas tuag atynt. Yn bennaf oll, rydym yn cydnabod bod yn rhaid trin pobl hŷn gydag urddas, beth bynnag fo'u hamgylchiadau.

1.12 Mae amrywiaeth, cyd-destun a nifer yr achosion o droseddau yn erbyn pobl hŷn yn golygu bod yn rhaid i ni weithio'n agos â gwasanaethau cymdeithasol, gofal cymdeithasol a'r arolygiaeth gofal iechyd a chyrff rheoleiddio, meddygon teulu, ysbytai a gwasanaethau eiriolaeth/eraill i bobl hŷn wrth ymdrin ag achosion. Nid rhywbeth yn gysylltiedig â materion ymchwilio a cyhuddo yn unig yw hyn, ond y mae'n cynnwys, ble bo'n briodol, cefnogi pobl hŷn sy'n ddioddefwyr a thystion. Byddwn hefyd yn gweithio gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol i ystyried cam-drin posib yn y system garcharau, er enghraifft, yn sgil y nifer gynyddol o garcharorion hŷn.

1.13 Fodd bynnag, nid y CPS yw'r unig asiantaeth sy'n delio ag achosion o droseddau yn erbyn pobl hŷn. Y mae rhan i'w chwarae gan yr heddlu, y llysoedd troseddol, ynadon a barnwyr, ac aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol, o ran hybu mwy o hyder yn y system cyfiawnder troseddol.

1.14 Bydd pobl hŷn yn mynd i lysoedd fel diffynyddion hefyd. Rydym yn disgwyl y bydd y rhai sy'n eu cynrychioli yn ystyried unrhyw

2 Rôl Gwasanaeth Erlyn y Goron

2.1 Gwasanaeth Erlyn y Goron yw'r prif awdurdod erlyn cyhoeddus dros Gymru a Lloegr a'r pennaeth yw'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Cafodd ei sefydlu yn 1986 i erlyn achosion troseddol a ymchwilir gan yr heddlu. Arolygir y CPS gan y Twrnai Cyffredinol, sy'n atebol i'r Senedd am y Gwasanaeth.

2.2 Mae gan y CPS 42 Rhanbarth ledled Cymru a Lloegr. Mae pob Rhanbarth dan arweiniad Prif Erlynydd y Goron (CCP) sy'n gyfrifol am gyflwyno gwasanaeth erlyn o ansawdd uchel i'w gymuned leol ef neu hi. Y mae deugain ac un o Ranbarthau (ac eithrio Llundain) wedi'u grwpio'n 14 Bwrdd Strategol. Mae pob Bwrdd Strategol yn cael ei gadeirio gan Brif Erlynydd y Goron sy'n Gadeirydd y Grŵp. Y mae un Rhanbarth arall 'rhithwir', sef CPS Direct, sy'n cynnig cyngor ynghylch cyhuddo i'r heddlu y tu allan i oriau swyddfa. Mae tair adran gwaith achosion penodol, yn y Pencadlys, yn delio ag erlyn troseddau cyfundrefnol difrifol, terfysgaeth ac achosion erlyn arbenigol eraill.

2.3 Y mae pob Rhanbarth y CPS yn gyd-derminws gydag un gwasanaeth heddlu, ac eithrio CPS Llundain sy'n cwmpasu Gwasanaeth Heddlu Llundain a Heddlu Dinas Llundain.

2.4 Y CPS sy'n penderfynu ar gyhuddiadau ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf a bydd ein herlynwyr yn gweithio gyda'r heddlu i sicrhau bod achosion o droseddau yn erbyn pobl hŷn yn cael eu nodi mor fuan â phosib er mwyn gallu gwneud y penderfyniad cywir ynghylch cyhuddo.

2.5 Cyfrifoldeb yr heddlu yw ymchwilio i gyhuddiadau o droseddu a chasglu tystiolaeth ynghylch yr hyn a ddigwyddodd.

2.6 Er bod y CPS yn gweithio'n agos gyda'r heddlu, mae'n annibynnol arnynt. Mae annibyniaeth Erlynwyr y Goron o bwys cyfansoddiadol sylfaenol. Bydd penderfyniadau ynghylch gwaith achosion penodol sy'n deg, diduedd a gonest yn cynorthwyo i sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr, tystion, diffynyddion a'r cyhoedd.

2.7 Mae'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr yn dibynnu ar dystion yn dod i'r llys i roi tystiolaeth ynghylch yr hyn a ddigwyddodd. Fel arfer, bydd tystion yn rhoi tystiolaeth yn gyhoeddus yn y llys ym mhresenoldeb aelodau'r cyhoedd a'r wasg. Bydd y diffynnydd yn bresennol bron bob amser hefyd. Mae rhoi gwybod am drosedd a rhoi tystiolaeth yn ddyletswydd gyhoeddus ac mae parodrwydd tystion i ddod ymlaen yn allweddol i unrhyw erlyniad llwyddiannus.

2.8 Rydym yn cydnabod, ar adegau, y bydd tyst allweddol yn ofni dod ymlaen a chwythu'r chwiban ar ymddygiad troseddol, er enghraifft, mewn cartref gofal neu wasanaeth dydd. Rydym yn cydnabod y rhan hanfodol y mae'r tystion hyn yn ei chwarae o ran dadlennu arferion troseddol a'n cynorthwyo i ddod â throseddwyr gerbron llys. Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu a gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi tystion i roi eu tystiolaeth orau, gan gynnwys ystyried a ddylid gwneud cais am fesurau arbennig (gweler adran 7).

2.9 Fe wyddom fod y rhai y mae troseddau yn erbyn pobl hŷn yn effeithio arnynt yn gyndyn weithiau neu'n methu rhoi gwybod am y digwyddiad heb gefnogaeth. Hyd yn oed os nad oes angen cefnogaeth ychwanegol, fe wyddom ei bod yn bosib na fydd rhai pobl hŷn yn rhoi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau oherwydd ofn y cânt eu fictimeiddio eto, neu oherwydd ofnau am barhau i fod yn ddibynnol ar y sawl sy'n cyflawni trosedd neu gael eu symud o'u cartref eu hunain a'u rhoi mewn sefydliad neu gartref gofal. Gallai pobl hŷn gael eu targedu oherwydd eu mynediad anghyfartal at ddiogelwch neu oherwydd yr amgylchedd ble maent yn byw, er enghraifft, mewn ysbyty, cartref gofal neu yn eu cartref eu hunain. Hyd yn oed os rhoddwyd gwybod am ddigwyddiadau, gall pobl hŷn fod yn gyndyn o roi tystiolaeth oherwydd eu bod yn teimlo'n ofnus os bydd y sawl sy'n cyflawni trosedd yn cael ei erlyn, ac felly bydd arnynt angen cymorth i wneud hynny.

2.10 Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w gwneud hi mor hawdd â phosib rhoi tystiolaeth yn y llys (gweler adran 7 am ragor o wybodaeth) a byddwn yn ystyried pa fesurau sydd ar gael i gefnogi pobl hŷn, fel eu bod yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau bosib. Mae'n bwysig i ni fod yr heddlu yn cael clywed am droseddau yn erbyn pobl hŷn, bod y troseddau yn cael eu herlyn a bod pobl hŷn yn cael mynediad cyfartal at gyfiawnder.

3 Troseddau yn erbyn pobl hŷn

3.1 Nid oes diffiniad statudol o drosedd yn erbyn person hŷn, na throsedd statudol cyffredinol o esgeuluso person hŷn.[6]

3.2 Rydym yn deall bod trosedd hiliol yn gysylltiedig â hiliaeth fel set ragfarnllyd o syniadau; yn union fel mae trosedd rhywiol neu drais yn y cartref yn gysylltiedig â rhagfarn ar sail rhyw a gweithredu grym a rheolaeth. Mae rhai troseddau yn erbyn pobl hŷn yn gysylltiedig â rhagfarn ar sail oed fel set ragfarnllyd o syniadau. Mae'r CPS yn cydnabod y gall rhagfarn ar sail oed arwain at gefndir ble mae troseddau yn erbyn pobl hŷn yn cael eu goddef.

3.3 Gall pobl hŷn gael eu targedu oherwydd eu natur agored i niwed canfyddedig neu wirioneddol, neu eu mynediad anghyfartal at ddiogelwch. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun yn dwyn waled dyn hŷn sy'n cerdded ar hyd y stryd gan i'r sawl dan amheuaeth ei ddewis oherwydd ei fod yn darged 'hawdd'. Byddwn yn dadlau bod elfen waethygol yn perthyn i'r trosedd hwn; byddem yn tynnu sylw'r llys at y ffaith fod y sawl a amheuir wedi cymryd mantais ar y dyn hŷn oherwydd ei oedran canfyddedig a'i fod i'w weld yn fregus.

[6] Y mae yna droseddau penodol o esgeulustod: mae a127 Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn creu'r troseddau cam-drin neu esgeuluso claf yn fwriadol sydd am y tro yn derbyn triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol fel claf mewnol yn yr ysbyty neu'r cartref hwnnw; mae adran 44 Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn creu'r trosedd cam-drin neu esgeuluso, sy'n gymwys ble mae gan y dioddefwr ddiffyg galluedd yn ôl diffiniad y Ddeddf.

3.4 Gall troseddau yn erbyn pobl hŷn gael eu cyflawni yng nghyddestun camdriniaeth ac esgeulustod ble maent yn byw, boed hyn mewn cartref gofal, yn eu cartref eu hunain neu yn yr ysbyty.

3.5 Gall pobl hŷn gael eu targedu gan ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan beri iddynt gael eu dychryn a bod yn ofnus.

3.6 Mae'r crynodeb yn y pwyntiau isod yn egluro'r amrediad eang a chymhleth o droseddau y gall pobl hŷn eu hwynebu:

a) cam-drin neu esgeuluso pobl hŷn yn droseddol ble mae perthynas yn bodoli a ble disgwylir ymddiriedaeth (er enghraifft, gan aelodau'r teulu, ffrindiau, gweithwyr cyflogedig, gwirfoddolwyr, ac ati) gan gynnwys: trais yn y cartref a ble bydd pobl hŷn yn cael eu targedu oherwydd y canfyddir neu y gwyddys bod ganddynt ddiffyg galluedd meddyliol; neu gam-drin neu esgeuluso pobl hŷn yn droseddol a hwythau'n byw un ai dros dro neu'n barhaol mewn lleoliad gofal rheoledig neu anrheoledig;

b) troseddau sy'n cael eu targedu'n benodol at bobl hŷn oherwydd y canfyddir eu bod yn agored i niwed neu y gallai'n fod yn hawdd dwyn oddi arnynt (er enghraifft, camdriniaeth ariannol neu ddwyn, mygio pobl hŷn, dwyn ar stepen y drws, bwrgleriaeth trwy wrthdynnu sylw neu fasnachwyr sy'n twyllo);[7]

c) troseddau yn erbyn pobl hŷn nad ydynt yn gysylltiedig â'u hoedran i ddechrau ond a allai fod yn gysylltiedig ag oedran yn ddiweddarach (er enghraifft, bwrgleriaeth ble nad yw'r bwrgler yn gwybod oedran deiliad y tŷ ond sydd wedyn yn manteisio ar y sefyllfa wrth ddarganfod fod deiliad y tŷ yn berson hŷn); a

[7] Cyfeirir yn aml at y troseddau a ddisgrifir yn a) a b) fel "cam-drin pobl hŷn".

d) throseddau yn erbyn pobl hŷn sy'n cael eu hysgogi yn rhannol, neu'n llwyr gan elyniaeth ar sail oedran, neu oedran canfyddedig, (er enghraifft, ymosodiad, aflonyddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cynnwys datganiadau difrïol yn gysylltiedig ag oedran y dioddefwr).

3.7 Rydym yn disgrifio rhai o'r troseddau mwyaf cyffredin a allai ymwneud â phobl hŷn yn Atodiad A.

3.8 Fel gydag unrhyw un sy'n ddioddefwr troseddau, bydd angen i ni roi ystyriaeth i effaith y trosedd arno ef neu hi a'r anghenion cefnogaeth a allai godi o ganlyniad i hynny. Rydym yn egluro sut byddwn yn cefnogi dioddefwyr troseddau hŷn yn adran 7.

4 Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron

4.1 Rydym yn disgrifio'r ffordd y byddwn yn dod i benderfyniad ynghylch erlyn ai peidio yn y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron. Cyflwynir y ddogfen hon gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Bydd yn cael ei diweddaru'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu arferion cyfredol. Byddwn yn adolygu'r achosion a gyfeirir atom yn unol â'r ddau gam a ddisgrifir yn y Côd. Mewn achosion ble mae'r heddlu eisoes wedi cyhuddo diffynnydd, rhaid i ni benderfynu a ddylid parhau i erlyn, gan adolygu'r achos yn unol â'r Côd. Yn y ddwy sefyllfa, y CPS, nid y dioddefwr na'r heddlu, sy'n gyfrifol am benderfyniadau i erlyn.

Y cam tystiolaethol

4.2 Rhaid i Erlynwyr y Goron fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi 'gobaith realistig o euogfarn' yn erbyn pob diffynnydd ar bob cyhuddiad. Rhaid iddynt ystyried beth allai achos yr amddiffyniad fod, a sut mae hynny'n debygol o effeithio ar achos yr erlyniad.

4.3 Mae gobaith realistig o euogfarn yn brawf gwrthrychol. Mae hyn yn golygu y byddai rheithgor neu fainc o ynadon neu farnwr sy'n gwrando'r achos ar ei ben ei hun, dan gyfarwyddyd priodol yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o gael y diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig. Mae hwn yn brawf ar wahân i'r un y mae'n rhaid i'r llysoedd troseddol ei gymhwyso eu hunain. Ni ddylai llys euogfarnu heb fod yn fodlon ei fod yn sicr bod diffynnydd yn euog.

4.4 Wrth benderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn, rhaid i Erlynwyr y Goron ystyried a ellir defnyddio'r dystiolaeth ac a yw'n ddibynadwy. Bydd llawer o achosion ble na fydd y dystiolaeth yn peri unrhyw bryder. Ond fe fydd achosion hefyd efallai ble na fydd y dystiolaeth mor gryf ag y mae'n ymddangos. Rhaid i Erlynwyr y Goron ofyn y cwestiynau canlynol iddynt eu hunain:

- A ellir defnyddio'r dystiolaeth yn y llys?
- A yw'n debygol y bydd y dystiolaeth yn cael ei gwahardd gan y llys?
- Y mae rhai rheolau cyfreithiol a allai olygu na ellir rhoi tystiolaeth mewn treial er i'r dystiolaeth honno ymddangos yn berthnasol. Er enghraifft, a yw'n debygol y bydd y dystiolaeth yn cael ei gwahardd oherwydd y ffordd y cafodd ei chasglu? Os felly, a oes digon o dystiolaeth arall i roi gobaith realistig o euogfarn?
- A yw'r dystiolaeth yn ddibynadwy?
- A oes tystiolaeth a allai gefnogi neu amharu ar ddibynadwyedd cyfaddefiad? A oes ffactorau yn effeithio ar y dibynadwyedd, er enghraifft oedran, deallusrwydd neu lefel dealltwriaeth y diffynnydd?
- Pa esboniad a roddwyd i'r diffynnydd? A yw hi'n debygol y bydd llys yn ei hystyried yn gredadwy yn sgil y dystiolaeth at ei gilydd? A yw'n cefnogi esboniad diniwed?
- A yw tystiolaeth y diffynnydd yn debygol o gael ei chwestiynu, a yw'r dystiolaeth ynghylch hyn yn ddigon cryf?
- A yw cefndir y tyst yn debygol o wanhau achos yr erlyniad? Er enghraifft, a oes gan y tyst unrhyw gymhelliad a allai effeithio ar ei agwedd ef neu hi tuag at yr achos, neu euogfarn blaenorol perthnasol?
- A oes pryderon ynghylch cywirdeb neu hygrededd tyst? A oes pryderon ar sail tystiolaeth neu wybodaeth heb ddim i'w chefnogi? A oes rhagor o dystiolaeth y dylid gofyn i'r heddlu ei cheisio a allai gefnogi neu amharu ar adroddiad y tyst?

- Ni ddylai Erlynwyr y Goron anwybyddu tystiolaeth oherwydd eu bod yn ansicr a ellir ei defnyddio ynteu a yw'n ddibynadwy. Ond fe ddylent edrych arni'n ofalus wrth benderfynu a oes gobaith realistig o euogfarn.

Cam budd y cyhoedd

4.5 Yn 1951, fe gafwyd datganiad clasurol ar fudd y cyhoedd gan yr Arglwydd Shawcross, y Twrnai Cyffredinol, datganiad a gefnogwyd gan Dwrneiod Cyffredinol byth ers hynny: "Ni fu hi erioed yn rheol yn y wlad hon – gobeithio na fydd hi byth – ein bod ni'n awtomatig yn erlyn lle bo amheuaeth o drosedd".[8]

4.6 Rhaid ystyried budd y cyhoedd ym mhob achos ble mae digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn. Er y gall fod ffactorau budd y cyhoedd yn erbyn erlyn mewn achos penodol, yn aml fe ddylid bwrw ymlaen â'r erlyniad a chyflwyno'r ffactorau hynny gerbron y llys i gael eu hystyried wrth ddedfrydu. Fel arfer fe fydd erlyniad yn digwydd oni bai fod ffactorau budd y cyhoedd sy'n gogwyddo yn erbyn erlyn yn amlwg yn fwy na'r ffactorau o'i blaid, neu ei bod hi'n ymddangos yn fwy priodol dan holl amgylchiadau'r achos i ddewis llwybr arall yn hytrach nag erlyn y person.

4.7 Rhaid i Erlynwyr y Goron bwyso a mesur ffactorau o blaid ac yn erbyn erlyn yn ofalus a theg. Fel arfer, bydd ffactorau budd y cyhoedd sy'n gallu effeithio ar y penderfyniad i erlyn yn dibynnu ar ddifrifoldeb y trosedd neu amgylchiadau'r sawl a amheuir. Gall rhai ffactorau gynyddu'r angen i erlyn ond gall eraill awgrymu y byddai'n well gweithredu mewn ffordd arall.

4.8 Mae'r CPS o'r farn bod troseddau yn erbyn pobl hŷn yn ddifrifol. Felly mae'n debygol y bydd angen erlyn er budd y cyhoedd. Ymhlith y ffactorau eraill sy'n berthnasol i fudd y cyhoedd y mae'r canlynol:

[8] *House of Commons Debates*, cyfrol 483, colofn 681, 29 Ionawr 1951)

- mae'r trosedd yn ddifrifol;
- mae'r diffynnydd mewn awdurdod a/neu ymddiriedaeth o ran eu perthynas â'r dioddefwr;
- mae sail dros gredu bod y trosedd yn debygol o barhau neu ddigwydd eto;
- mae'r dioddefwr yn agored i niwed;
- mae'r dioddefwr wedi derbyn niwed;
- cafodd y diffynnydd ei ysgogi gan ragfarn neu wahaniaethu ar sail oedran y dioddefwr;
- mae'r diffynnydd yn defnyddio arf;
- mae'r diffynnydd wedi gwneud unrhyw fygythiadau cyn neu ar ôl yr ymosodiad;
- mae'r diffynnydd wedi cynllunio'r ymosodiad;
- y mae bygythiad parhaus i iechyd a diogelwch y dioddefwr neu unrhyw un arall sydd, neu a allai, ymhel â'r mater; ac
- mae gan y diffynnydd hanes o droseddu, yn enwedig unrhyw euogfarnau am droseddau yn erbyn pobl hŷn.

4.9 Yn unol ag Addewid yr Erlynwyr, wrth ystyried cam budd y cyhoedd, un o'r ffactorau y dylai Erlynwyr y Goron ei ystyried bob amser yw: "canlyniadau'r penderfyniad i erlyn ai peidio ar y dioddefwr; ac unrhyw farn a fynegir gan y dioddefwr neu deulu'r dioddefwr". Byddwn bob amser yn meddwl yn ofalus am fuddiannau'r dioddefwr wrth benderfynu beth yw budd y cyhoedd. Ond byddwn yn erlyn achosion ar ran y cyhoedd ac nid er budd unrhyw unigolyn penodol. Mae'r rhain yn aml yn benderfyniadau anodd. Mae barn a buddiannau'r dioddefwr yn bwysig, ond ni allant fod y gair olaf o ran erlyniad gan y CPS.[9]

[9] Mae'r Côd yn ddogfen gyhoeddus. Mae copïau ar gael gan Gangen Cyfathrebu y CPS, 50 Ludgate Hill, Llundain EC4M 7EX neu gan swyddfeydd lleol y CPS, neu oddi ar ein gwefan http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/code.html

5 Rôl yr heddlu

5.1 Cyfrifoldeb yr heddlu yw ymchwilio i bob honiad o droseddu a chasglu tystiolaeth ynghylch a gyflawnwyd trosedd ai peidio. Os cyflawnwyd trosedd, ymchwiliwr yr heddlu sy'n gyfrifol am gasglu tystiolaeth o ansawdd uchel i gefnogi erlyniad.

5.2 Bydd yr heddlu yn ymdrin â throseddau yn erbyn pobl hŷn yn yr un ffordd ag y byddant ar gyfer unrhyw ymchwiliad troseddol.

5.3 Gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol ac anstatudol, bydd yr heddlu yn ceisio cael tystiolaeth ategol i gefnogi honiadau o gamdriniaeth. Bydd yr holl ddeunydd yn cael ei ddadlennu i'r CPS.

5.4 Yn unol â'r Côd ar gyfer Dioddefwyr, bydd yr heddlu yn darparu gwybodaeth am Gymorth i Ddioddefwyr yn ogystal â gwasanaethau arbenigol eraill yn lleol sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau hŷn.

5.5 Mewn achosion priodol, bydd yr heddlu yn cynnal cyfweliadau gyda dioddefwyr a thystion yn unol â chanllaw Sicrhau'r Dystiolaeth Orau.[10] Er enghraifft, fe allai fod yn briodol i'r heddlu gynnal cyfweliadau gyda'r dioddefwr gan eu recordio ar fideo a gallent gael eu cyflwyno'n ddiweddarach fel y dystiolaeth flaenaf.

[10] Gweler www.homeoffice.gov.uk/documents/achieving-best-evidence

5.6 Os oes gan y person hŷn anawsterau cyfathrebu sy'n ymyrryd â'u gallu i roi tystiolaeth, gellir penodi cyfryngwr i gynorthwyo pan fydd tystiolaeth yn cael ei rhoi yn ystod camau cynnar yr achos, ac yn ddiweddarach yn y llys i wneud yn siwr bod y tyst hŷn yn gallu deall y cwestiynau a ofynnir iddo ef neu hi a bod eu hatebion hwythau'n cael eu deall. Therapyddion lleferydd a iaith yw'r cyfryngwyr fel arfer, sy'n gweithio gyda thystion i'w cefnogi i roi eu tystiolaeth orau. Mae'r rhain ar gael ar gyfer tystion yr amddiffyniad a'r erlyniad.

5.7 Os bu'r digwyddiad mewn cartref gofal, ysbyty neu sefydliad arall, byddwn yn disgwyl i'r heddlu holi'r staff a chynnal eu hymchwiliad yn annibynnol ar unrhyw ymchwiliad arall y gallai'r awdurdodau fod yn eu cynnal. Os cyflawnwyd trosedd, bydd y CPS yn cysylltu ag unrhyw awdurdod arall sy'n gyfrifol am ymgymryd ag unrhyw ymchwiliad arall mewn perthynas â cham-drin person hŷn yn droseddol ond bydd ymchwiliad yr heddlu a phenderfyniadau'r CPS ynghylch cyhuddo yn annibynnol ar unrhyw gasgliadau o unrhyw adolygiadau y gallai'r cyrff arolygu hyn ymgymryd â nhw.

5.8 Os bydd pobl hŷn yn wynebu camdriniaeth mewn perthynas gyda'r sawl sy'n cyflawni trosedd a hynny'n cynnwys elfen o ddisgwyl ymddiriedaeth, er enghraifft, gan aelod o'r teulu neu weithiwr gofal, bydd yr heddlu yn gweithio'n agos gyda strwythurau diogelu oedolion yn lleol. Mae strwythurau diogelu oedolion yn cael eu hategu gan ganllawiau *No Secrets* yn Lloegr a chanllawiau *Mewn Dwylo Diogel* yng Nghymru; mae'r rhain yn cyfarwyddo asiantaethau sy'n diogelu oedolion agored i niwed i gydweithio i atal ac ymateb i gamdriniaeth oedolion agored i niwed. Mae'r canllaw yn datgan yn glir hefyd fod ymchwiliad yr heddlu yn cael blaenoriaeth dros bob ymchwiliad arall.[11]

[11] *No Secrets: guidance on developing and implementing multi-agency policies and procedures to protect vulnerable adults from abuse*, yr Adran Iechyd, 2000. *Mewn Dwylo Diogel: Rhoi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion ar Waith yng Nghymru*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000.

5.9 Bydd ymchwiliwr yr heddlu, ynghyd â phartneriaid, yn nodi unrhyw anghenion cefnogaeth ychwanegol sydd gan y dioddefwr o bosib, er mwyn cyfrannu at benderfyniadau'r CPS o ran ceisiadau am fesurau arbennig. Ni fyddwn yn tybio mai dod â'r dioddefwr i'r llys i roi tystiolaeth yw'r unig ffordd o brofi achos. Os bydd y dioddefwr yn methu cymryd rhan yn yr achos cyfreithiol, er enghraifft, oherwydd analluogrwydd meddyliol neu ofn difrifol, byddwn yn mynd ati gyda'r heddlu i ystyried pa dystiolaeth arall a allai fod ar gael er mwyn llunio achos y gellir ei brofi yn y llys, heb i'r dioddefwr orfod rhoi tystiolaeth.

Therapi Cyn y Treial

5.10 Efallai y bydd tystion sy'n agored i niwed neu'n ofnus yn ymgymryd â therapi cyn y treial, neu'n ystyried hynny. Mae'n bwysig bod yr heddlu a'r CPS yn ymwybodol bod therapi yn cael ei gynnig, yn digwydd neu wedi bod yn digwydd.

5.11 Mae'n gamddealltwriaeth cyffredin na fydd y CPS yn erlyn achos ble bydd plentyn neu oedolyn wedi derbyn therapi cyn y treial. Mewn gwirionedd, natur y therapi yw'r prif beth, yn hytrach na'r ffaith ei fod wedi digwydd. Ni fydd sawl math o therapi yn cael unrhyw effaith andwyol ar yr achos troseddol.

5.12 Mae buddiannau'r tyst sy'n agored i niwed neu'n ofnus o'r **pwys mwyaf** wrth benderfynu a ddylid rhoi cymorth therapiwtig ai peidio, pryd i roi'r cymorth ac ar ba ffurf.

5.13 Nid mater i'r heddlu na'r CPS yw penderfynu a ddylai tyst dderbyn therapi cyn y treial troseddol ac nid oes gan y rhai sy'n ymwneud â'r erlyniad unrhyw awdurdod i atal unrhyw dyst rhag derbyn therapi. Mater i'r tyst a/neu eu gofalwyr, ar y cyd â'r asiantaethau proffesiynol sy'n darparu cefnogaeth, yw penderfynu mynd am therapi ai peidio.

5.14 Dylid egluro natur y therapi er mwyn gallu ystyried a yw darparu therapi o'r fath yn debygol o effeithio ar yr achos troseddol. Mae rhai dulliau therapiwtig yn peri problemau o ran dibynadwyedd y dystiolaeth. Yn eu plith mae hypnotherapi, seicodrama, technegau atchweliad a grwpiau distrwythur.[12] Fel y nodir uchod fodd bynnag, mae buddiannau'r tyst sy'n agored i niwed neu'n ofnus o'r pwys mwyaf wrth benderfynu a ddylid rhoi cymorth therapiwtig ai peidio, pryd i roi'r cymorth ac ar ba ffurf.

[12] Mae'r Canllaw i'w gael yn llawn yn "Darparu Therapi ar gyfer Plant sy'n Dystion cyn Achos Troseddol (Arweiniad i Arferion)" ac yn *"Provision of Therapy for Vulnerable or Intimidated Adult Witnesses Prior to a Criminal Trial (Practice Guidance)"*. Mae'r ddwy ddogfen i'w cael yn www.cps.gov.uk a www.homeoffice.gov.uk

6 Erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn

6.1 Mae'n bwysig bod unrhyw ddigwyddiad a hysbysir sy'n drosedd yn erbyn person hŷn yn cael ei adnabod felly gan yr heddlu a'r CPS oherwydd y bydd hyn yn hysbysu'r ffordd y byddwn yn ymdrin â'r achos a'n cynorthwyo i fonitro ein perfformiad yn y maes hwn.

6.2 Fel yr eglurwyd yn adran 5, byddwn yn mabwysiadu dull rhagweithiol o ran ceisio rhagor o wybodaeth gan yr heddlu i'n cynorthwyo i benderfynu a ellir erlyn achos yn briodol fel trosedd. Ym mhob achos, dylai erlynwyr gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog yn yr achos i sicrhau bod yr holl dystiolaeth sydd ar gael wedi'i chasglu a'i hanfon at y CPS i'w hystyried wrth adolygu'r achos, a bod unrhyw angen am fesurau arbennig wedi'u nodi er mwyn gallu gwneud ceisiadau i'r llys yn brydlon (gweler adran 7 am ragor o wybodaeth am fesurau arbennig).

Dewis cyhuddiadau

6.3 Mewn unrhyw erlyniad, dylai'r cyhuddiadau y byddwn yn eu dewis bob amser adlewyrchu difrifoldeb yr amgylchiadau, unrhyw elfen o ragfwriad neu ddyfalbarhad yn ymddygiad y diffynnydd, bwriad profadwy y diffynnydd a difrifoldeb unrhyw niwed a wynebir gan y dioddefwr. Rhaid i'r cyhuddiadau ein cynorthwyo i gyflwyno'r achos yn glir a syml a rhaid iddynt roi'r grym i'r llys roi'r ddedfryd gywir. Byddwn yn

rhoi ystyriaeth i'r effaith ar y dioddefwr neu eu teulu wrth wneud penderfyniad ynghylch cyhuddo.[13]

6.4 Gall yr amser ar ôl cyhuddo troseddwr achosi pryder i'r dioddefwr, a gall pobl hŷn deimlo'n arbennig o agored i niwed, yn enwedig os oedd y troseddwr hefyd yn brif ofalwr (a/neu'n briod, partner neu berthynas teuluol).

6.5 Mae gan y CPS a'r heddlu "safonau cyhuddo" cytûn ar gyfer rhai mathau o droseddau gan gynnwys ymosodiadau. Canllawiau yw'r rhain sy'n ein cynorthwyo i wneud penderfyniadau cyson ynghylch y cyhuddiadau cywir. Byddwn yn eu defnyddio wrth adolygu achosion. Mae enghreifftiau o safonau cyhuddo i'w gweld yn: http://www.cps.gov.uk/legal/section5/chapter_c.html

6.6 Yn adran 3, rydym yn disgrifio amryfal amgylchiadau ble gall troseddau yn erbyn pobl hŷn ddigwydd. Mae'r tabl yn Atodiad A yn disgrifio'r ymddygiad y gall pobl hŷn ei wynebu dan amgylchiadau o'r fath, a'r troseddau penodol sy'n gysylltiedig ag ymddygiad o'r fath. Os bydd y camau tystiolaethol a budd y cyhoedd yn y Côd yn cael eu bodloni (gweler adran 4 uchod), a'r CPS yw'r awdurdod erlyn, bydd y troseddau hyn yn cael eu herlyn.

6.7 Yn unol â'r Côd ar gyfer Dioddefwyr, byddwn yn rhoi gwybod i ddioddefwyr am benderfyniadau i beidio ag erlyn a, dan rai amgylchiadau, yn cynnig cyfarfod i egluro pam y gwnaed y penderfyniad hwn. Os bydd erlynydd wedi penderfynu peidio ag erlyn yn ystod ymgynghoriad wyneb yn wyneb gyda swyddog yr heddlu (hynny yw, heb adroddiad tystiolaethol

[13] Os bydd y dioddefwr wedi marw o ganlyniad i'r ymddygiad troseddol neu os bydd yn methu derbyn gwasanaethau o ganlyniad i anabledd, mae hawl gan lefarydd ar ran teulu'r dioddefwr i dderbyn gwasanaethau dan Y Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau megis yr hawl i dderbyn gwybodaeth a darparu Datganiad Personol Dioddefwr gan ddisgrifio effaith y trosedd.

ysgrifenedig, llawn), rhaid i swyddog yr heddlu roi gwybod i'r dioddefwr am y penderfyniad i beidio â chyhuddo.

Mechnïaeth

6.8 Ar ôl i unigolyn gael ei gyhuddo o gyflawni trosedd, bydd yr heddlu yn penderfynu, fel arfer mewn ymgynghoriad â'r erlynydd, a ddylai'r unigolyn gael ei ryddhau ar fechnïaeth, gyda neu heb amodau, i fynychu'r gwrandawiad llys nesaf a fydd ar gael (fel arfer o fewn dau i bum niwrnod o'r cyhuddiad), neu'n cadw'r unigolyn yn y ddalfa i ymddangos gerbron y llys ynadon y diwrnod hwnnw neu drannoeth. Unwaith y bydd y sawl a gyhuddir yn ymddangos gerbron y llys, bydd yr ynadon yn penderfynu ynghylch mechnïaeth ar ôl gwrando ar yr erlyniad a'r amddiffyniad. Gallwn apelio, dan rai amgylchiadau cyfyngedig iawn, yn erbyn penderfyniad i ganiatáu mechnïaeth.

6.9 Gall erlynwyr ddefnyddio Datganiadau Personol Dioddefwr (gweler adran 7) i'w cynorthwyo i benderfynu a ddylent ofyn i'r llys osod amodau os rhoddir diffynnydd ar fechnïaeth. Er mwyn amddiffyn y person hŷn rhag risg perygl neu fygythiadau neu droseddau dro ar ôl tro, gallwn ofyn i'r llys osod amodau ar y fechnïaeth neu gallwn ofyn am i'r diffynnydd gael ei remandio yn y ddalfa. Ni all y llys wrthod rhoi mechnïaeth, na gosod amodau ar hynny, oni bai fod seiliau sylweddol dros gredu na fyddai'r diffynnydd yn mynychu'r llys, y byddai'n cyflawni troseddau neu y byddai'n rhwystro cwrs cyfiawnder, trwy ddychryn tystion efallai.

6.10 Ymhlith yr amodau y gall y llys eu rhoi y mae gofynion i beidio â mynd yn agos at unrhyw unigolyn a enwir neu i gadw draw o ardal arbennig. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwrthod mechnïaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth i wybodaeth a gawn gan yr heddlu ynghylch ofnau dioddefwr neu dyst am aflonyddu neu droseddu dro ar ôl tro.

6.11 Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu a'r llysoedd i sicrhau bod y dioddefwr neu'r tyst yn cael gwybod am unrhyw newid yn amodau mechnïaeth y sawl a gyhuddir neu a yw yn y ddalfa ai peidio. Mae Unedau Gofal Tystion, a redir gan yr heddlu a'r CPS, yn rhoi cefnogaeth a gwybodaeth i ddioddefwyr a thystion a bydd Swyddog Gofal Tystion yn cadw mewn cysylltiad â'r dioddefwr neu'r tystion i roi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau.[14] Rydym yn disgrifio ein hymrwymiadau i ddioddefwyr a thystion yn adran 7 y polisi hwn.

[14] Yn unol â'r Côd ar gyfer Dioddefwyr ac Addewid yr Erlynwyr.

7 Cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion hŷn

7.1 Ychydig o bobl hŷn sy'n hysbysu awdurdodau cyfiawnder troseddol am ddigwyddiadau o gam-drin. Yn ôl *UK Prevalence Study* (2007) gwelwyd mai 6% yn unig o ymatebwyr a roddodd wybod i'r heddlu am gamdriniaeth.

7.2 Mae'r adroddiad *Hidden Voices: Older People's Experience of Abuse* (Action on Elder Abuse, 2004), yn ogystal ag astudiaethau eraill, wedi nodi bod y canlynol yn rhai o'r rhesymau posib dros beidio â hysbysu:

- diffyg mynediad at bobl ddibynadwy i ddweud wrthynt am bryderon neu gyhuddiadau; gall hyn fod yn broblem arbennig i bobl hŷn sy'n ynysig yn gymdeithasol;
- gall pobl hŷn gyda chyflyrau iechyd meddwl ei chael hi'n arbennig o anodd rhoi gwybod am droseddau;
- ofn y bydd awdurdodau yn tynnu'r dioddefwr o'r sefyllfa gamdriniol gan gredu mai dyna'r peth gorau i'w wneud o safbwynt y dioddefwr (ond o ganlyniad i hyn fe allai'r dioddefwr golli eu cartref neu gael eu rhoi mewn sefydliad neu gartref gofal, sef yr union ganlyniad y mae'r camdriniwr yn gobeithio a fydd yn digwydd);
- diffyg mynediad at ffôn neu ffordd arall o hysbysu pobl ddibynadwy;
- cywilydd, yn enwedig os yw'r camdriniwr yn aelod o'r teulu;

- os bydd troseddau yn erbyn pobl hŷn yn digwydd mewn cartref preifat, efallai y bydd llai o siawns y daw'r digwyddiadau i sylw gofal cymdeithasol neu weithwyr proffesiynol eraill. Mewn achosion o gamdriniaeth ariannol, mae pobl hŷn yn gallu teimlo gormod o gywilydd i roi gwybod am ddwyn neu dwyll os cawsant eu twyllo i roi arian neu eiddo gwerthfawr i rywun;
- nid Saesneg yw iaith gyntaf rhai pobl. Efallai na fydd gan bobl ddigon o hyder i ddod ymlaen a bydd arnynt angen cefnogaeth cyfieithydd annibynnol, yn enwedig os cafodd trosedd ei gyflawni gan aelod o'r teulu neu ffrind.

7.3 Byddwn yn gweithio gydag amryw o ddarparwyr gwasanaethau a allai fod ar gael yn lleol i sicrhau bod pobl hŷn yn cael y gefnogaeth angenrheidiol sy'n mynd y tu hwnt i'r system cyfiawnder troseddol. Er enghraifft, mae gwasanaethau eiriolaeth arbenigol ar gyfer pobl hŷn, Cymorth i Ddioddefwyr, neu eiriolwyr galluedd meddyliol annibynnol yn gallu chwarae rhan allweddol o ran darparu cefnogaeth a chymorth parhaus wrth gyfathrebu ag asiantaethau eraill. Gall y gwasanaethau hyn roi cymorth i bobl hŷn, boed achosion troseddol yn digwydd ai peidio. Mae manylion yr asiantaethau hyn i'w cael yn Atodiad B.

7.4 Mae gan y CPS amryw o raglenni a pholisïau sy'n ceisio sicrhau bod pob dioddefwr a thyst yn ganolog i'r system cyfiawnder troseddol. Mae testun llawn ac amryw o ddogfennau perthnasol ar gael ar ein gwefan.[15] Hefyd, mae cefnogaeth ar gael oddi wrth amryw o asiantaethau ar bob cam o'r broses droseddol a ddisgrifir yn y polisi hwn. Bydd anghenion cefnogaeth yn cael eu nodi gan yr heddlu, Unedau Gofal Tystion ac erlynwyr ac aelodau staff eraill y CPS. Mae'r CPS wedi ymroi'n llwyr i gymryd pob cam ymarferol i gynorthwyo dioddefwyr a thystion trwy'r hyn sy'n gallu bod yn brofiad

[15] Neu drwy wneud cais ysgrifenedig i Gangen Cyfathrebu y CPS, 50 Ludgate Hill, Llundain EC4M 7EX.

anodd o gymryd rhan yn y system cyfiawnder troseddol. Rydym yn cydnabod po gynharaf y bydd anghenion dioddefwyr a thystion yn cael eu nodi, mwyaf tebygol yw hi y byddwn yn gallu sefydlu'r gefnogaeth fwyaf priodol.

7.5 Mae'r holl bolisïau a mentrau hyn yn gymwys i bob dioddefwr a thyst. Isod rydym yn amlygu agweddau sydd fwyaf perthnasol i bobl hŷn.

Addewid yr Erlynwyr

7.6 Mae Addewid yr Erlynwyr yn Addewid 10 pwynt sy'n disgrifio lefel y gwasanaeth y gall dioddefwyr ddisgwyl ei dderbyn oddi wrth erlynwyr. Mae'n sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion penodol dioddefwyr hŷn sy'n agored i niwed. Er enghraifft, dylai erlynwyr herio cwestiynu amhriodol ble na fydd y person hŷn yn cael digon o amser i ymateb neu sy'n peri dryswch dianghenraid iddynt.[16]

Y Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau (y Côd i Ddioddefwyr)

7.7 Mae'r Côd ar gyfer Dioddefwyr yn disgrifio ymrwymiadau'r CPS tuag at ddioddefwyr; er enghraifft, mae adran 7.8 y Côd hwn yn datgan bod yn rhaid i erlynwyr y CPS ystyried a ddylent wneud cais am fesurau arbennig ar gyfer dioddefwyr a allai fod yn agored i niwed neu'n ofnus, megis pobl hŷn sydd i gael eu galw'n dystion i roi tystiolaeth.[17]

---

[16] Mae Addewid yr Erlynwyr i'w gael ar ein gwefan http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/prosecutor_pledge.html

[17] Mae copïau o'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau ar gael gan Gangen Cyfathrebu y CPS yn 50 Ludgate Hill, Llundain EC4M 7EX neu ar ein gwefan: http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/victims_code.pdf

Datganiadau Personol Dioddefwr

7.8 Datganiad Personol gan Ddioddefwr yw datganiad a wneir gan rywun a ddioddefodd yn sgil trosedd, sy'n esbonio'r effaith a gafodd y trosedd arno ef neu arni hi. Gall pobl hŷn sy'n ddioddefwyr trosedd ddefnyddio'r datganiad hwn i ddisgrifio sut yr effeithiodd y trosedd arnynt. Gallant siarad am eu dymuniadau neu eu hanghenion yn ystod yr achos ac unrhyw bryderon a allai fod ganddynt o ganlyniad i'r trosedd, er enghraifft, ynghylch diogelwch, dychryn neu fechnïaeth. Gallant sôn am eu cefnogaeth (neu ddiffyg cefnogaeth) i'r erlyniad ac unrhyw geisiadau am gymorth gan unrhyw rai o'r asiantaethau cefnogi. Fel hyn gall asiantaethau cyfiawnder troseddol a'r llys ddod i well dealltwriaeth nid yn unig am y trosedd ond hefyd am gyd-destun y trosedd a'i effeithiau a'i ganlyniadau. Rhywbeth dewisol yw'r datganiad, a dylid gofyn i'r dioddefwr a yw'n dymuno gwneud datganiad o'r fath ai peidio neu a oes arno ef/hi angen help i wneud datganiad gan weithiwr cefnogi neu aelod o'r teulu. Gellir gwneud y datganiad hwn unrhyw bryd ac mae'n bosib gwneud mwy nag un datganiad.[18]

7.9 Mewn achosion o lofruddiaeth, dynladdiad a thraffig y ffyrdd angheuol, mae hawl gan aelodau'r teulu gymryd rhan yn y cynllun Canolbwyntio ar Ddioddefwyr. Yn yr achosion hyn, bydd yr erlynydd yn cynnig cwrdd â theulu'r dioddefwr i egluro'r broses cyfiawnder troseddol ac egluro y gall y teulu wneud datganiad am yr effaith ar y teulu i'w ddarllen ar goedd i'r llys gan yr erlynydd adeg dedfrydu.

[18] http://www.homeoffice.gov.uk/documents/victimstate.pdf.

8 Helpu pobl hŷn i roi eu tystiolaeth orau yn y llys

Unedau Gofal Tystion

8.1 Mae *Dim Tyst, Dim Cyfiawnder* yn rhaglen ar y cyd rhwng yr heddlu a'r CPS ac mae'n ceisio ymateb i anghenion unigol dioddefwyr a thystion trwy sefydlu Unedau Gofal Tystion un pwrpas.

8.2 Mae gennym Unedau Gofal Tystion ym mhob un o 42 Rhanbarth y CPS ac mae'r rhain yn cael eu rhedeg ar y cyd gan y CPS a'r heddlu. Mae Swyddogion Gofal Tystion yn darparu un man cyswllt a chefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer pob tyst er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau. Mae'r gefnogaeth neilltuol hon wedi'i seilio ar asesiad anghenion sy'n cynnwys ystyried pa gefnogaeth arbenigol y gallai tyst hŷn fod ei hangen. Er enghraifft, gallai'r gefnogaeth hon olygu cynorthwyo gyda chludiant i'r llys ac oddi yno; defnyddio cyfieithwyr achrededig ar gyfer tystion â nam ar eu clyw; galluogi rhai pobl hŷn i roi eu tystiolaeth ar eu heistedd oherwydd eu bod yn fregus; neu ganiatáu i dystion hŷn roi eu tystiolaeth trwy gyswllt byw, i osgoi'r angen iddynt fod yn bresennol yn gorfforol yn y llys.

8.3 Gallai Unedau Gofal Tystion fod â chysylltiadau â gwasanaethau eiriolaeth arbenigol i bobl hŷn. Bydd Swyddogion Gofal Tystion yn rheoli'r gofal am y dioddefwr neu'r tyst o'r adeg y cyhuddir diffynnydd hyd at y gwrandawiad olaf a byddant yn cysylltu â'r Gwasanaeth Tystion i drefnu ymweliadau ymgyfarwyddo â'r llys cyn y treial.[19]

Mesurau arbennig

8.4 Mae gan y CPS ran allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod mesurau arbennig ar gael i gefnogi tystion agored i niwed neu ofnus, i roi eu tystiolaeth orau.

8.5 Cyflwynwyd mesurau arbennig gan Dddeddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999 ac maent ar gael yn Llys y Goron ac yn y llysoedd ynadon. Maent ar gael i gynorthwyo'r tystion canlynol:

- plant dan 17 oed;
- oedolion (17 a throsodd) a allai gael eu hystyried yn agored i niwed oherwydd analluogrwydd, megis anhwylder corfforol neu feddyliol, neu anabledd dysgu a
- thystion y mae eu tystiolaeth yn debygol o ddioddef oherwydd eu bod yn ofnus neu'n gofidio am roi tystiolaeth.

8.6 Dyma enghreifftiau o Fesurau Arbennig:

- chwarae recordiad fideo o ddatganiad y dioddefwr neu'r tyst i'r llys dan rai amgylchiadau;
- caniatáu defnyddio sgriniau yn ystafell y llys er mwyn rhwystro dioddefwr neu dystion eraill rhag gweld y diffynnydd;

[19] Mae rhagor o wybodaeth am ymweliadau ymgyfarwyddo cyn achos llys i'w chael yn www.victimsupport.org.uk.

- rhoi tystiolaeth draw oddi wrth ystafell y llys trwy gyfrwng cyswllt teledu byw (ond fe fydd hi'n dal yn bosib i'r diffynnydd eu gweld);
- gwagio'r oriel gyhoeddus mewn achosion o droseddau rhyw neu achosion sy'n cynnwys dychryn; a
- phenodi cyfryngwr (gweler adran 5)

8.7 Dylid ymchwilio i'r angen am fesurau arbennig ar y cam cynharaf, gan yr heddlu yn gyntaf, (gweler adran 5) ac yna gan yr erlynydd. Pan fydd swyddog yr heddlu yn cymryd datganiad gan dyst, bydd yn cynnal asesiad anghenion dechreuol ar gyfer y person hwnnw. Os bydd yn rhaid i'r tyst fynd i'r llys yn ddiweddarach i roi tystiolaeth, bydd y Swyddog Gofal Tystion yn cynnal asesiad anghenion manwl. Dyma gyfle pellach i'r tyst roi manylion am eu pryderon neu am unrhyw anghenion sydd efallai wedi newid ers eu hasesiad dechreuol.

8.8 Yn unol â'r Côd ar gyfer Dioddefwyr, byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried unrhyw angen am Fesurau Arbennig ble nodwyd bod dioddefwr yn agored i niwed neu'n cael ei ddychryn. Byddwn yn gwneud cais am fesurau arbennig ond mater i'r barnwr neu'r ynadon yw penderfynu eu caniatáu ai peidio. Wrth benderfynu a ellir caniatáu mesurau arbennig ai peidio, rhaid i'r llys benderfynu a yw ansawdd tystiolaeth y tyst yn debygol o ostwng heb y mesurau arbennig y gofynnir amdanynt. Wrth i achosion fynd rhagddynt, gall amgylchiadau unigol newid ac felly mae'n bosib y bydd angen i ni wneud cais i'r llys i amrywio mesurau arbennig. Ble bynnag y bo modd, bydd unrhyw gais am fesurau arbennig yn cael ei wneud cyn diwrnod y treial. Bydd Swyddog Gofal Tystion yn rhoi gwybod i'r tyst am benderfyniad y llys.

Cyfarfod rhwng y CPS a dioddefwyr a thystion agored i niwed neu sy'n cael eu dychryn

8.9 Pan fydd cais am fesurau arbennig yn cael ei ystyried, gofynnir i dystion a fyddent yn dymuno cwrdd â'r erlynydd. Pwrpas y cyfarfod yw egluro pam y gwneir cais am rai mesurau arbennig (neu ddim) a rhoi sicrwydd i dystion y rhoddir ystyriaeth i'w hanghenion a thrwy hynny gynorthwyo i feithrin ymddiriedaeth a hyder. Nid oes raid i'r tyst fynychu'r cyfarfod hwn ar ei ben ei hun. Gall ddod â pherthynas, gofalwr neu rywun arall i'w gefnogi. Er mwyn hwyluso cyfathrebu gyda'r dioddefwr, efallai y bydd hi'n briodol trefnu bod cyfieithydd, neu rywun tebyg, yn mynychu'r cyfarfod. Lle bynnag y bo modd, bydd erlynydd y CPS yn sicrhau bod yr adfocad a fydd yn cynnal y treial yn mynychu'r cyfarfod rhwng erlynydd y CPS a'r tyst. Bydd erlynydd y CPS neu'r Swyddog Gofal Tystion yn cyfeirio'r dioddefwr at y Gwasanaeth Tystion, a redir gan Gymorth i Ddioddefwyr, i drefnu ymweliad ymgyfarwyddo cyn yr achos llys a chefnogaeth ar ddiwrnod y treial.[20] Bydd y tyst yn cael cyfle i'w atgoffa ei hun o ddatganiad tyst cyn rhoi tystiolaeth.

[20] Mae rhagor o wybodaeth ynghylch cyfarfodydd â thystion agored i niwed neu dystion sy'n cael eu dychryn yn y daflen: "Tystion, Eich cyfarfod gydag Erlynydd y CPS". Mae'r daflen hon ar gael gan Gangen Cyfathrebu y CPS, 50 Ludgate Hill, Llundain EC4M 7EX, neu ar ein gwefan http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/witnesseng.html

9 Beth sy'n digwydd os bydd y dioddefwr yn tynnu ei gefnogaeth yn ôl neu os nad yw bellach yn dymuno rhoi tystiolaeth?

9.1 Weithiau, bydd dioddefwr yn gofyn i'r heddlu beidio â bwrw ymlaen â'r achos, neu bydd yn gofyn am gael tynnu'r gŵyn yn ôl ar ôl i'r sawl a amheuir gael ei gyhuddo. Nid yw hyn yn golygu o anghenraid y bydd yr achos yn cael ei atal yn awtomatig. Yn gyffredinol, byddwn yn erlyn pob achos ble bydd tystiolaeth ddigonol a ble nad oes unrhyw ffactorau sy'n ein rhwystro rhag gwneud hynny. Os yw'r dioddefwr wedi penderfynu tynnu'n ôl rhag cefnogi'r erlyniad, rhaid i ni ddod i wybod pam. Gall hyn olygu gohirio'r gwrandawiad llys er mwyn ymchwilio i'r ffeithiau a phenderfynu beth y dylid ei wneud am y gorau.

9.2 Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- sicrhau bod erlynydd profiadol yn arolygu'r achos;
- os bydd y dioddefwr yn penderfynu tynnu ei gefnogaeth yn ôl, byddwn yn gofyn i'r heddlu gymryd datganiad ysgrifenedig gan y dioddefwr i egluro'r rhesymau dros wneud hynny, i gadarnhau bod y gŵyn wreiddiol yn wir a dod i wybod a roddwyd unrhyw bwysau ar y dioddefwr i dynnu ei gefnogaeth yn ôl; a
- byddwn yn gofyn i'r heddlu am eu barn ynghylch y dystiolaeth yn yr achos a hefyd, fel bo'n briodol, yn gofyn i feddyg teulu'r dioddefwr neu weithiwr iechyd neu weithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol arall beth, yn eu barn nhw, fyddai ymateb y dioddefwr petai'n cael ei orfodi i fynychu'r llys.

9.3 Os bydd datganiad y dioddefwr, ar ôl tynnu'r gŵyn yn ôl, yn wahanol i'r datganiad cynharach, byddwn yn disgwyl i'r heddlu ofyn i'r dioddefwr egluro pam ei fod wedi newid. Byddwn yn gofyn i'r heddlu wneud hyn, ble bo'n bosib a phriodol, ym mhresenoldeb ffrind neu berthynas i'r person hŷn, neu weithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol.

9.4 Os bydd y dioddefwr yn cadarnhau bod y gŵyn yn wir ond yn dal yn awyddus i dynnu'r gŵyn honno yn ôl, byddwn yn ystyried yn gyntaf a yw'n bosib parhau i erlyn heb dystiolaeth y dioddefwr (y prawf tystiolaethol) ac yna, os yw'n bosib, a ddylem ni barhau â'r achos heb gefnogaeth y dioddefwr neu'n groes i ddymuniad y dioddefwr (prawf budd y cyhoedd).

9.5 Os byddwn yn amau bod pwysau wedi'i roi ar y dioddefwr neu y cafodd ei ddychryn er mwyn tynnu'r gŵyn yn ôl, byddwn yn gofyn i'r heddlu ymchwilio ymhellach. Mae'n bosib y bydd yr ymchwiliad yn datgelu troseddau newydd, er enghraifft, aflonyddu neu ddychryn tystion, neu fod amodau mechnïaeth wedi'u torri. Os penderfynodd y dioddefwr neu'r tyst dynnu eu cefnogaeth i'r erlyniad yn ôl am resymau yn seiliedig ar ofn neu ddychryn, bydd yn rhaid dwyn y dystiolaeth i sylw'r erlynydd er mwyn ystyried pa gyhuddiadau neu weithredoedd eraill allai fod yn briodol. Er enghraifft, gall cais am fesurau arbennig priodol roi'r gefnogaeth angenrheidiol i'r dioddefwr gymryd rhan yn y broses fel tyst. Rydym yn ymwybodol y gallai pobl hŷn a ddioddefodd gamdriniaeth deimlo'n agored i niwed ac yn ofnus o ganlyniadau rhoi gwybod am y gamdriniaeth honedig.

9.6 Byddwn yn archwilio'r holl ddewisiadau hyn yn llawn, cyn penderfynu bwrw ymlaen gydag erlyniad ai peidio. Bydd diogelwch y dioddefwr neu unrhyw berson arall a allai fod yn agored i niwed, yn un o'r prif ystyriaethau wrth i ni lunio ein penderfyniad.

10 Parhau ag achos ble mae'r dioddefwr wedi tynnu'n ôl ei gefnogaeth dros erlyn

10.1 At ei gilydd, po fwyaf difrifol yw'r trosedd (er enghraifft, oherwydd lefel y trais a ddefnyddiwyd neu'r bygythiad gwirioneddol a pharhaus i'r dioddefwr neu eraill) y mwyaf tebygol ydym ni o erlyn er budd y cyhoedd, hyd yn oed os yw'r dioddefwr yn dweud nad yw'n dymuno i ni wneud hynny.

10.2 Mewn rhai achosion, os oes gennym ddigon o dystiolaeth arall, fe allem barhau heb ddibynnu ar dystiolaeth y dioddefwr o gwbl.

10.3 Os byddwn yn penderfynu y dylai'r achos fynd yn ei flaen a bod angen dibynnu ar dystiolaeth y dioddefwr i brofi'r achos, mae'n rhaid i ni benderfynu:

- a allwn barhau â'r erlyniad gan helpu'r dioddefwr i fynychu'r llys trwy ddefnyddio mesurau arbennig; neu
- a allem wneud cais i'r llys am gael defnyddio datganiad y dioddefwr yn dystiolaeth heb i'r dioddefwr orfod rhoi tystiolaeth yn y llys; neu
- a ddylem orfodi'r dioddefwr i roi tystiolaeth yn bersonol yn y llys.

10.4 Mae gwybodaeth gefndir yn hanfodol er mwyn helpu erlynydd wneud y penderfyniad cywir ynghylch sut i fwrw ymlaen, gan gynnwys yr angen i ystyried unrhyw fesurau arbennig neu gefnogaeth arall sydd ar gael i'r dioddefwr a allai eu cynorthwyo, yn rhannol o leiaf, i oresgyn unrhyw bryderon er mwyn cymryd rhan fel tyst. Dyma rai o'r ffactorau y dylid eu hystyried:

- gallu'r dioddefwr i roi tystiolaeth;
- a oes perthynas barhaus rhwng y dioddefwr a'r diffynnydd, er enghraifft, ble mae'r diffynnydd yn brif ofalwr i'r dioddefwr;
- a yw'r dioddefwr yn byw mewn lle ble maent yn teimlo'n ynysig neu'n arbennig o agored i niwed neu ble gallai cefnogi'r erlyniad osod y dioddefwr mewn rhagor o risg o gael niwed;
- os oes perthynas barhaus, hanes y berthynas ac unrhyw enghreifftiau o gamdriniaeth yn y gorffennol (er enghraifft, unrhyw achosion blaenorol o drais yn y cartref);
- y tebygolrwydd y bydd y diffynnydd yn troseddu eto;
- yr effaith ar y dioddefwr wrth fwrw ymlaen â'r achos neu beidio â bwrw ymlaen; ac
- a fu unrhyw fygythiadau ers y digwyddiad.

10.5 Ni fydd erlynwyr yn gwneud penderfyniad i alw ar ddioddefwyr i roi tystiolaeth yn groes i'w dymuniad hyd nes y bydd wedi ymgynghori â'r heddlu a, ble bo'n briodol, gydag eraill sydd â budd cyfreithlon, er enghraifft, meddyg y dioddefwr, gweithwyr gofal iechyd a/neu weithwyr cymdeithasol, a chyda diogelwch y dioddefwr yn brif ystyriaeth. Bydd unrhyw benderfyniad i orfodi dioddefwr i roi tystiolaeth hefyd yn ystyried hawliau'r unigolyn dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

10.6 Mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ddefnyddio datganiad y dioddefwr yn y llys heb alw'r dioddefwr i roi tystiolaeth lafar, ond mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn yn unig. Mater i'r llys yw penderfynu a fydd yn caniatáu hyn ai peidio ac ni fydd yn gwneud hynny oni bai y byddai hynny er budd cyfiawnder yn yr

achos arbennig hwn. Er enghraifft, efallai yr ystyrir nad yw hi er budd cyfiawnder rhwystro'r amddiffyniad rhag croesholi'r unig dyst yn yr achos.

Parhau ag achos ble mae galluedd y dioddefwr yn gyfnewidiol

10.7 Mewn pobl hŷn gyda dementia neu afiechydon eraill sy'n gysylltiedig â henaint, mae'n bosib y bydd eu galluedd yn gyfnewidiol. Mae hyn yn golygu y bydd eu gallu i ddeall gwybodaeth a gwneud penderfyniadau yn newid dros gyfnod byr o amser, ond y gallai amrywio hefyd mewn perthynas â gwahanol fathau o benderfyniadau. Er enghraifft, efallai y bydd person gyda galluedd cyfnewidiol yn gallu penderfynu rhoi datganiad tyst ond methu deall a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chymryd rhan ym mhroses y llys.

10.8 Mae gan bobl hŷn gyda dementia yr un hawliau â phob dioddefwr a thyst i dderbyn gwasanaeth cyfartal a hygyrch. Ni fyddwn yn rhagdybio pa mor ddibynadwy neu gredadwy yw dioddefwr gyda galluedd cyfnewidiol.

10.9 Byddwn yn ystyried beth y gellir ei wneud i gefnogi pobl hŷn i roi eu tystiolaeth orau (gweler y wybodaeth am fesurau arbennig yn adran 7) a cheisio ffynonellau tystiolaeth eraill a thystion eraill i gefnogi achos yr erlyniad.

10.10 Os na fydd tyst hŷn â'r gallu i wneud penderfyniad mewn perthynas â'r achos, byddwn yn gweithio gyda'i gynrychiolydd penodedig ef neu hi ac yn unol ag egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

10.11 Os byddant ar gael a hynny'n briodol, byddwn yn gweithio gydag Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodir dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i gynorthwyo tystion hŷn i wneud penderfyniadau ynghylch rhoi tystiolaeth a pha bynnag gefnogaeth a allai fod yn angenrheidiol i wneud hynny.

Gweithio mewn cyd-destun amlasiantaethol

10.12 Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau i weithio gydag asiantaethau eraill i ddiogelu oedolion agored i niwed fel y disgrifir yn *No Secrets* yn Lloegr ac *Mewn Dwylo Diogel* yng Nghymru. Mewn sawl rhan o'r wlad, y mae fframweithiau lleol, cryf ar gael i ddiogelu oedolion agored i niwed a gallwn weithio gyda'r rhain a gofyn am gyngor ynghylch y materion mwy cymhleth, megis cefnogaeth a galluedd cyfnewidiol. Gallwn hefyd fanteisio ar wybodaeth ac arbenigedd yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) sydd newydd ei sefydlu, y Comisiwn Arolygu Gofal Iechyd a'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol.

10.13 Mewn amgylchiadau ble na fydd y prawf a ddisgrifir yn y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron yn cael ei fodloni ac nad yw'n bosib erlyn, neu os bydd diffynnydd yn cael ei ddyfarnu'n ddieuog yn y llys, byddwn yn cydweithredu ag asiantaethau eraill fel arolygiaethau perthnasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol i sicrhau, ble bo'n briodol, ein bod yn dilyn trywydd annhroseddol neu atebion neu ymyriadau eraill. Er enghraifft, efallai y bydd digon o dystiolaeth i dynnu enw'r diffynnydd oddi ar ei gofrestr broffesiynol ef neu hi.

10.14 Byddwn hefyd yn gweithio gydag asiantaethau erlyniadol eraill sydd â pholisïau gorfodi megis Adrannau Safonau Masnach, er enghraifft, wrth ymdrin â thwyllwyr.

11 Dedfrydu

11.1 Os oes unrhyw dystiolaeth o elfen waethygol yn perthyn i'r trosedd oherwydd gelyniaeth tuag at y dioddefw(y)r ar sail eu hoed, bydd adfocad yr erlyniad yn rhoi gwybod i'r llys am hynny. Er nad oes unrhyw ddeddfwriaeth ar hyn o bryd sy'n gosod dyletswydd ar y llysoedd i gynyddu'r ddedfryd am drosedd sy'n seiliedig ar elyniaeth tuag at unigolyn oherwydd ei oed, y mae nifer o achosion o droseddau yn erbyn pobl hŷn, megis dwyn, lladrad, bwrgleriaeth a thwyll, sy'n amlygu natur waethygol targedu dioddefwr hŷn neu un sy'n agored i niwed. Mae'r Llys Apêl wedi mynegi ei farn yn glir bod troseddau yn erbyn pobl hŷn a phobl agored i niwed yn ddifrifol dros ben a bod disgwyl i'r rhai sy'n dewis dioddefwyr o'r fath, yn enwedig y rhai sy'n ymosod ar bobl hŷn ac agored i niwed yn eu cartrefi eu hunain, wynebu dedfrydau hir dan glo.

11.2 Bydd erlynwyr bob amser yn ystyried y canllawiau a gyflwynwyd gan y Cyngor Canllawiau Dedfrydu ym mis Rhagfyr 2004: *Overarching Principles: Seriousness*. Maent yn datgan ei bod yn ofynnol i lys roi dedfryd sy'n gymesur â difrifoldeb y trosedd a phennir hyn gan euogrwydd y troseddwr a'r niwed a achoswyd (neu'r risg y bydd niwed yn cael ei achosi) gan y trosedd. Bydd yr euogrwydd yn fwy os bydd troseddwr yn targedu dioddefwr agored i niwed oherwydd ei oedran.

11.3 Rydym yn cydnabod bod y niwed a ddioddefir gan bobl hŷn sy'n ddioddefwyr camdriniaeth yn gallu bod yn sylweddol. Er enghraifft, yn ôl *UK Prevalence Study (2007)*, dywedodd 33% o ymatebwyr a gafodd eu cam-drin yn y flwyddyn a aeth heibio fod yr effaith yn ddifrifol iawn.

11.4 Gallai ymatebwyr gyfeirio at fwy nag un math o effaith yr oedd y digwyddiad camdriniol wedi'i gael arnyn nhw, a'r effeithiau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd effeithiau emosiynol, megis teimlo'n ddig neu'n ofidus (78%), a chymdeithasol, er enghraifft, teimlo eu bod wedi'u gwahanu oddi wrth deulu neu ffrindiau (61%). Cyfeiriodd 11% o ymatebwyr at effeithiau corfforol, megis anghysur neu boen (crybwyllwyd gan y rhai a gafodd brofiad o esgeulustod neu gamdriniaeth gorfforol yn unig).

11.5 Bydd y llys yn cael gwybod am brofiad y person hŷn o'r trosedd yn ystod yr achos trwy gyfrwng tystiolaeth y tyst a hefyd mewn Datganiad Personol Dioddefwr (os gwnaed datganiad), er mwyn i'r llys roi ystyriaeth i hyn adeg dedfrydu.

11.6 Pan fydd diffynnydd yn pledio'n euog neu'r llys yn ei gael yn euog, rhaid i'r llys benderfynu pa ddedfryd i'w rhoi a gall ddewis o blith amrediad eang o gosbau. Gall y cosbau fod ar ffurf gorchmynion cymunedol, dirwyon, neu ddedfryd o garchar.

11.7 Byddwn yn rhoi gwybod i'r llys am y ffactorau risg sy'n bodoli er mwyn iddo allu gosod dedfrydau a gorchmynion sy'n lliniaru ar hyn.

11.8 Cyn cael ei ddedfrydu, mae gan ddiffynnydd hawl i wneud ple i liniaru. Yn unol ag Addewid yr Erlynwyr, os bydd y lliniaru yn ymosod yn annheg neu'n ddi-sail ar rywun arall, boed yn ddioddefwr ai peidio, byddwn yn herio'r sylwadau a gallwn ofyn i'r llys wrando ar dystiolaeth i gywiro sylwadau'r diffynnydd.

11.9 Byddwn yn rhoi gwybodaeth i'r llys i'w helpu i benderfynu a fydd yn gwneud unrhyw orchmynion ategol yn ychwanegol at y brif ddedfryd. Er enghraifft, ble bo'n briodol, byddwn yn gwneud cais am orchymyn iawndal ar gyfer colled, niwed neu ddifrod. Ym mhob achos, mater i'r ynadon neu'r barnwr yn unig yw penderfynu ar y ddedfryd. Ar gyfer nifer gyfyngedig o

droseddau (a phan ddedfrydir y diffynnydd yn Llys y Goron yn unig) y mae gennym hawl i ofyn i'r Twrnai Cyffredinol herio dedfryd, os ydym o'r farn ei bod yn rhy drugarog. Fe all unrhyw un, gan gynnwys y dioddefwr ei hun neu deulu'r dioddefwr, ddwyn y ddedfryd i sylw'r Twrnai Cyffredinol os byddant yn ei hystyried yn rhy drugarog. Mae yna, fodd bynnag, gyfyngiad amser llym o 28 diwrnod (o'r dyddiad dedfrydu) ar gyfer apêl gan y Twrnai Cyffredinol i'r Llys Apêl i ailystyried y ddedfryd.

12 Cofnodi troseddau yn erbyn pobl hŷn

12.1 Er mwyn casglu gwybodaeth ynghylch y ffordd rydym yn ymdrin ag achosion o droseddau yn erbyn pobl hŷn, byddwn yn eu holrhain trwy ofyn i Ranbarthau'r CPS dynnu sylw at yr achos ar ein system rheoli achosion. Er dibenion monitro, rydym wedi dewis y categorïau o droseddau a amlinellir yn Atodiad A ble mae'r dioddefwr yn 60 oed neu drosodd. Rydym yn disgwyl y bydd y trefniadau monitro hyn yn casglu gwybodaeth am fwyafrif helaeth yr achosion. Byddwn hefyd yn nodi unrhyw nodweddion gwaethygol ychwanegol, megis trosedd hiliol neu grefyddol gwaethygol, trosedd casineb ar sail anabledd, trais yn y cartref neu drosedd homoffobig, er mwyn tynnu sylw at y dioddefwyr mwyaf agored i niwed. Bydd hyn o gymorth i sicrhau ein bod yn ymdrin â'r achos yn briodol.

12.2 Fel hyn, bydd yr erlynydd yn cael ei hysbysu i ystyried, ar y cam cynharaf, pa gefnogaeth ychwanegol y bydd ar y dioddefwr neu'r tyst ei hangen er mwyn gallu mynd â'r achos i'r llys.

13 Casgliad

13.1 Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan i atal troseddau yn erbyn pobl hŷn a dod â throseddwyr gerbron eu gwell. Rydym wedi ymroi i wella'r ffordd rydym yn ymdrin ag achosion o'r fath ac rydym eisiau i ddioddefwyr a thystion fod yn hyderus yn y ffordd rydym yn adolygu a rheoli ein hachosion.

13.2 Rydym yn gobeithio y bydd y ddogfen hon yn cynorthwyo dioddefwyr troseddau o'r fath i ddeall gwaith y CPS, sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau, a gwahanol gamau y broses erlyn.

13.3 Byddwn yn parhau i weithio gyda'r heddlu, asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â chydweithwyr eraill yn y system cyfiawnder troseddol a'r sectorau gwirfoddol a chymunedol ar lefelau cenedlaethol a lleol i'n cynorthwyo i ddatblygu arferion da.

13.4 Byddwn yn monitro'r ffordd rydym yn delio ag achosion o droseddau yn erbyn pobl hŷn.

13.5 Mae'r CPS yn bwriadu adolygu'r datganiad polisi hwn yn rheolaidd, er mwyn iddo adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol a newidiadau mewn cymdeithas. Felly, rydym yn croesawu sylwadau i'n galluogi i wneud hyn.

Atodiad A

Tabl o ymddygiadau a wynebir gan bobl hŷn a'r troseddau y gallai'r rhain eu cynrychioli

Yn adran 3, rydym yn disgrifio'r amryfal amgylchiadau ble gall troseddau yn erbyn pobl hŷn ddigwydd ac rydym yn cyfeirio atynt eto ym mharagraff 6.6. O ran hwylustod, rydym yn eu nodi fan hyn eto.

a. Cam-drin neu esgeuluso pobl hŷn yn droseddol ble mae perthynas yn bodoli a ble disgwylir ymddiriedaeth (er enghraifft, gan aelodau'r teulu, ffrindiau, gweithwyr cyflogedig, gwirfoddolwyr, ac ati) gan gynnwys: trais yn y cartref a ble bydd pobl hŷn yn cael eu targedu oherwydd y canfyddir neu y gwyddys bod ganddynt ddiffyg galluedd meddyliol; neu gam-drin neu esgeuluso pobl hŷn yn droseddol a hwythau'n byw un ai dros dro neu'n barhaol mewn lleoliad gofal rheoledig neu anrheoledig;

b. Troseddau sy'n cael eu targedu'n benodol at bobl hŷn oherwydd y canfyddir eu bod yn agored i niwed neu y gallai'n fod yn hawdd dwyn oddi arnynt (er enghraifft, camdriniaeth ariannol neu ddwyn, mygio pobl hŷn, dwyn ar stepen y drws, bwrgleriaeth trwy wrthdynnu sylw neu fasnachwyr sy'n twyllo)[21];

c. Troseddau yn erbyn pobl hŷn nad ydynt yn gysylltiedig â'u hoedran i ddechrau ond a allai fod yn gysylltiedig ag oedran yn ddiweddarach (er enghraifft, bwrgleriaeth ble nad yw'r bwrgler yn gwybod oedran deiliad y tŷ ond sydd wedyn yn manteisio ar y sefyllfa wrth ddarganfod fod deiliad y tŷ yn berson hŷn); a

[21] Cyfeirir yn aml at y troseddau a ddisgrifir yn a) a b) fel "cam-drin pobl hŷn".

d. Throseddau yn erbyn pobl hŷn sy'n cael eu hysgogi yn rhannol, neu'n llwyr gan elyniaeth ar sail oedran, neu oedran canfyddedig, (er enghraifft, ymosodiad, aflonyddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cynnwys datganiadau difrïol yn gysylltiedig ag oedran y dioddefwr).

Mae'r tabl isod yn disgrifio'r amryfal ymddygiadau y gall pobl hŷn eu hwynebu dan amgylchiadau o'r fath, a'r troseddau penodol sy'n gallu cael eu cysylltu â'r ymddygiadau hynny. Os bydd y cam tystiolaethol a'r cam budd y cyhoedd yn y Côd yn cael eu bodloni (gweler adran 4 uchod), a'r CPS yw'r awdurdod erlyn, byddwn yn erlyn y troseddau hyn.

Enghreifftiau o ymddygiad	Enghreifftiau o droseddau posib / deddfwriaeth berthnasol
Taro, slapio, gwthio, cicio	Ymosod cyffredin a.39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988; gwir niwed corfforol a.47 Deddf Troseddau Corfforol 1861; niwed corfforol difrifol/gyda bwriad a.20 a 18, OAPA 1861
Camddefnyddio meddyginiaethau i reoli ymddygiad	Ymosod; camgarcharu; rhoi cyffuriau/ mater neu beth llesgaol/llethol gyda bwriad i gyflawni trosedd ditiol a.22 OAPA; gwenwyno gyda bwriad i niweidio, peri loes neu gythruddo, a.23/24 OAPA; rhoi meddyginiaethau yn anghyfreithlon a.58 Deddf Meddyginiaethau 1968; effeithio ar gyfansoddiad cynhyrchion meddyginiaethol yn niweidiol, a.63 Deddf Meddyginiaethau 1968; methu cydymffurfio ag amodau/torri rheoliadau a.24, 25 Deddf Safonau Gofal 2000
Cyfyngu amhriodol	Camgarcharu; ymosod cyffredin; gwir niwed corfforol; niwed corfforol difrifol; tagu a.21 OAPA; herwgipio; methu cydymffurfio ag amodau/torri rheoliadau a.24, 25 Deddf Safonau Gofal 2000
Cosbau amhriodol	Camgarcharu; ymosod; cam-drin/ esgeuluso yn fwriadol a.44 Deddf Galluedd Meddyliol 2005; cam-drin/ esgeuluso claf yn fwriadol a.127 Deddf Iechyd Meddwl 1983; methu cydymffurfio ag amodau/torri rheoliadau a.24, 25 Deddf Safonau Gofal 2000

Enghreifftiau o ymddygiad	Enghreifftiau o droseddau posib / deddfwriaeth berthnasol
Ymosodiadau rhywiol, gweithredoedd rhywiol nad yw'r dioddefwr wedi cydsynio iddynt neu na allai gydsynio iddynt neu bwysau wedi'i roi arno ef neu hi i gydsynio	(troseddau a gyflawnir ar ôl Mai 2004) Treisio, treiddio, ymosod, achosi gweithgarwch rhywiol heb gydsyniad a.1-4 Deddf Troseddau Rhywiol 2003; gweithgarwch rhywiol gyda pherson ag anhwylder meddyliol gan atal dewis neu achosi, annog, ymhel ym mhresenoldeb /peri i wylio, annog trwy ddichell, bygythiad neu gymhelliad a.30-37 SOA 2003; troseddau rhywiol gan weithwyr gofal yn erbyn person ag anhwylder meddyliol gan atal dewis, peri, annog, ymhel ym mhresenoldeb /peri i wylio a.38-41 SOA 2003; rhoi sylwedd gyda bwriad a.61; dinoethi a.66; voyeuriaeth a.67; gweithgarwch rhywiol mewn toiled cyhoeddus a.71 SOA 2003 Cyn Mai 2004 troseddau Deddf Troseddau Rhywiol 1956 a chyfathrach rywiol anghyfreithlon gyda chleifion/ preswylwyr sy'n dioddef anhwylder meddyliol a.128 Deddf Iechyd Meddwl 1959
Bygwth niweidio neu adael	Bygwth lladd a.16 OAPA; blacmel a.21 Deddf Dwyn 1968; ymosod cyffredin; cam-drin/esgeuluso yn fwriadol a.44 Deddf Galluedd Meddyliol 2005; cam-drin/esgeuluso claf yn fwriadol a.127 Deddf Iechyd Meddwl 1983
Amddifadu cyswllt, arwahanu neu dynnu'n ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol	Camgarcharu; cam-drin/esgeuluso yn fwriadol a.44 Deddf Galluedd Meddyliol 2005; cam-drin/ esgeuluso claf yn fwriadol a.127 Deddf Iechyd Meddwl 1983; methu cydymffurfio ag amodau/ torri rheoliadau a.24, 25 Deddf Safonau Gofal 2000
Bychanu, dychryn, blacmel emosiynol, sarhad llafar, rhywun yn gweiddi neu'n rhegi arnoch.	Ofn trais a.4 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986; aflonyddu, brawychu neu drallod bwriadol a.4A POA; aflonyddu, brawychu neu drallod a.5 POA; cwrs o ymddygiad sy'n gyfystyr ag aflonyddu/peri i rywun arall ofni a.1 a 4 Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997; aflonyddu ar berson yn ei gartref a.42A Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001; blacmel a.21 Deddf Dwyn 1968; ymosod cyffredin;

Enghreifftiau o ymddygiad	Enghreifftiau o droseddau posib / deddfwriaeth berthnasol
Dwyn, twyllo, ymelwa, pwysau mewn cysylltiad ag ewyllysiau, pwerau atwrnai, trafodion ariannol, neu gamddefnyddio neu gamberchnogi eiddo, budd-daliadau neu feddiant	Dwyn/lladrata a.1 ac 8 Deddf Dwyn 1968. Blacmel a.21 Deddf Dwyn; Twyll trwy ddweud anwiredd, trwy fethu dadlennu gwybodaeth, trwy gamddefnyddio swydd a.2, 3 a 4 Deddf Twyll 2007; ffugio a.25 Deddf Cardiau Adnabod 2006 a Deddf Ffugiadau a Drwgfathu 1981.
Anwybyddu anghenion gofal meddygol neu gorfforol, methu darparu mynediad at wasanaethau iechyd priodol, atal meddyginiaeth, maeth neu wres digonol, anghenion corfforol heb eu cyflawni megis dillad gwely neu ddillad yn socian o wrin neu ysgarthion, dannedd yn pydru, ewinedd wedi	Camgarcharu; Esgeuluso yn fwriadol neu gam-drin person â diffyg galluedd meddyliol a. 44 MCA 2005;cam-drin neu esgeuluso yn fwriadol cleifion ag anhwylder meddyliol o fewn ysbyty neu gartrefi nyrsio neu fel arall yng gwarchodaeth person neu ofal a.127(1) a (2) Deddf Iechyd Meddwl 1983; methu cydymffurfio ag amodau/torri rheoliadau a.24, 25 Deddf Safonau Gofal 2000
Amhariad, neu ddirywiad heb eisiau mewn iechyd corfforol neu feddyliol; amhariad ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol.	Esgeuluso yn fwriadol neu gam-drin person â diffyg galluedd meddyliol a. 44 MCA 2005 neu glaf a.127 MHA 1983 methu cydymffurfio ag amodau/torri rheoliadau a.24, 25 Deddf Safonau Gofal 2000;
Gweithredoedd sy'n arwain at farwolaeth	Llofruddiaeth; dynladdiad; Dynladdiad Corfforaethol; achosi neu ganiatáu marwolaeth person agored i niwed mewn cefndir domestig a.5 Deddf Trais yn y Cartref, Dioddefwyr a Throsedd 2004; helpu neu annog hunanladdiad a.2 Deddf Hunanladdiad 1961; methu cydymffurfio ag amodau/torri rheoliadau a.24, 25 Deddf Safonau Gofal 2000

Atodiad B

Yn y rhestr isod mae manylion cyswllt rhai o'r sefydliadau sy'n cefnogi pobl hŷn ac sy'n rhoi gwybodaeth ynghylch materion sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Action on Elder Abuse
Mae Action on Elder Abuse yn elusen gamdriniaeth sy'n canolbwyntio ar bobl hŷn. Mae Action on Elder Abuse yn gweithio i amddiffyn, ac atal cam-drin oedolion hŷn sy'n agored i niwed. Mae'n gweithredu ar hyd a lled y Deyrnas Unedig. Mae Action on Elder Abuse yn darparu amrediad eang o wasanaethau gan gynnwys gwaith polisi, gwahanol gynnyrch hyfforddi, cynadleddau a gwaith gyda'r cyfryngau.

Gan Action on Elder Abuse hefyd y mae'r unig linell gymorth yn y Deyrnas Unedig i unrhyw un sy'n pryderu am gam-drin pobl hŷn. Bydd swyddogion cymwys yn gallu cynnig cefnogaeth a gwybodaeth a rhoi gwybod yr hyn y gellir ei wneud i fynd i'r afael â chamdriniaeth.

Rhif gweinyddol - 020 8765 7000
Rhif Llinell Gymorth Rhadffon - 0808 808 8141

Age Concern Cymru
Mae'n gweithio gyda phobl hŷn, fforymau pobl hŷn, pobl a chyrff dylanwadol, pobl sy'n gwneud penderfyniadau a darparwyr gwasanaethau lleol, i sicrhau bod anghenion penodol poblogaeth hŷn Cymru yn cael eu cydnabod a bod rhywun yn delio â hwy. Ceir rhagor o wybodaeth yn www.helptheaged.org.uk/en-cy

Age Concern Lloegr
Mae'n cefnogi pawb sydd dros 50 yn y Deyrnas Unedig. Mae Age Concern yn darparu gwasanaethau hanfodol fel gofal dydd a gwybodaeth. Bydd y sefydliad hefyd yn ymgyrchu ar faterion fel gwahaniaethu ar sail oedran a phensiynau, gan weithio i ddylanwadu ar y farn gyhoeddus a pholisi'r llywodraeth tuag at bobl hŷn. Mae canghennau lleol i'w gweld ar Wefan Age Concern
www.ageconcern.org.uk

Canolfan Gerontoleg Gymdeithasol
Prifysgol Keele. Sefydlwyd y Ganolfan yn 1987, ac mae'n cynnal ymchwil i agweddau cymdeithasol ar heneiddio, gan ganolbwyntio'n benodol ar bolisi cymdeithasol pobl hŷn.
www.keele.ac.uk/research/lcs/csg/index.htm

Cyngor ar Bopeth
Mae gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn helpu pobl i ddatrys eu problemau cyfreithiol, ariannol a phroblemau eraill trwy ddarparu gwybodaeth a chyngor am ddim o dros 3,000 o leoliadau, a thrwy ddylanwadu ar bobl sy'n llunio polisïau. Mae canghennau lleol i'w gweld ar wefan Cyngor ar Bopeth
www.citizensadvice.org.uk/index/aboutus.htm

Help the Aged
Mae Help the Aged yn elusen ryngwladol sy'n brwydro i ryddhau pobl hŷn dan anfantais yn sgil tlodi, unigedd ac esgeulustod. Mae Help the Aged yn ymchwilio i anghenion pobl hŷn yn y Deyrnas Unedig a thramor a bydd yn ymgyrchu dros newid polisïau. Mae'r sefydliad yn darparu gwasanaethau cymunedol ac yn cyhoeddi gwybodaeth am gyllid, sut i aros yn iach yn ogystal â chanllawiau ar ddewis cartref gofal.

Mae canghennau lleol i'w gweld ar wefan Help the Aged
www.helptheaged.org.uk

MIND
Mae Mind yn elusen iechyd meddwl sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r sefydliad yn gweithio i greu gwell bywyd i bawb sydd â phrofiad o drallod meddyliol.

Mae'r Mind*info*Line yn cynnig help cyfrinachol ar amryw o faterion iechyd meddwl. 0845 766 0163

Mae Mind yn rhedeg rhwydwaith lleol hefyd. Mae'r rhain yn cynnig tai â chefnogaeth, llinellau cymorth mewn argyfwng, canolfannau galw heibio, cynghori, bod yn gyfaill, eiriolaeth, cynlluniau cyflogaeth a hyfforddiant, a gwasanaethau eraill.

www.mind.org.uk

Public concern at work
Public Concern at Work (PCaW) yw'r awdurdod annibynnol ar chwythu'r chwiban er budd y cyhoedd.
www.pcaw.co.uk
020 7404 6609

Cymorth i Ddioddefwyr
Cymorth i Ddioddefwyr yw'r elusen genedlaethol sy'n helpu pobl y mae trosedd yn effeithio arnynt. Mae'r sefydliad yn darparu cefnogaeth gyfrinachol ac am ddim i helpu dioddefwyr ddelio â'u profiad, boed nhw'n rhoi gwybod i'r heddlu am y trosedd ai peidio.

Cymorth i Ddioddefwyr sydd hefyd yn rhedeg y Gwasanaeth Tystion ym mhob llys troseddol yng Nghymru a Lloegr i roi gwybodaeth a chefnogaeth i dystion, dioddefwyr, eu teuluoedd a ffrindiau pan fyddant yn mynd i'r llys.

Mae staff a gwirfoddolwyr y Gwasanaeth Tystion yn cynnig:

- rhywun i siarad ag ef neu hi yn gyfrinachol
- cyfle i weld y llys ymlaen llaw a dysgu am drefn y llys
- lle tawel i aros
- rhywun i fynd gyda chi i ystafell y llys pan fyddwch yn rhoi tystiolaeth
- help ymarferol (er enghraifft gyda ffurflenni costau)
- mynediad haws at bobl sy'n gallu ateb cwestiynau penodol am yr achos (ni all y Gwasanaeth Tystion drafod tystiolaeth na chynnig cyngor cyfreithiol)
- cyfle i drafod yr achos pan fydd wedi dod i ben a chael rhagor o help neu wybodaeth.

www.victimsupport.org.uk
Llinell gefnogaeth: 0845 30 30 900

Fe gewch chi ragor o gopïau o'r daflen hon gan:

Cangen Cyfathrebu y CPS
50 Ludgate Hill
Llundain EC4M 7EX

Ffôn 020 7796 8442
Ffacs 020 7796 8030
E-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton
Ffôn 01204 532121